



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch
Tai Fforddiadwy



Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008

Adroddiad y Pwyllgor
Ebrill 2008

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopiau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8019

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

Cynnwys

	Tudalen
Aelodau'r Pwyllgor	(i)
Crynodeb	(ii)
1. Rhagymadrodd	1
2. Egwyddor y Gorchymyn arfaethedig	3
3. Defnyddio diffiniadau yn y Gorchymyn arfaethedig	9
4. Rhychwant y Gorchymyn arfaethedig	15
5. Y Mesur Tai ac Adfywio	24

Atodiadau

Atodiad 1	Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008 a Memorandwm Esboniadol
Atodiad 2	Llythyr ymgynghori
Atodiad 3	Ymatebion i'r ymgynghoriad
Atodiad 4	Rhestr o'r dystiolaeth lafar
Atodiad 5	Llythyrau gan Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai, 31 Ionawr a 4 Mawrth 2008

Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

Aelodau'r Pwyllgor

Leanne Wood (Cadeirydd)	Plaid Cymru	Canol de Cymru
Peter Black	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Gorllewin De Cymru
Alun Davies	Llafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths	Llafur	Wrecsam
Mark Isherwood	Plaid Geidwadol Cymru	Gogledd Cymru

Crynodeb

Mae casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy fel a ganlyn:

- Mae'r mwyafrif o'r Pwyllgor yn cytuno o ran egwyddor y dylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodwyd yn y Gorchymyn arfaethedig gael ei roi i'r Cynulliad Cenedlaethol.
- O ran y Gorchymyn arfaethedig fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, rydym yn argymhell y dylai gael ei ddiwygio fel bod y termau 'tŷ annedd', 'annedd' a 'landlord cymdeithasol' heb eu diffinio ac, oherwydd hynny, fel bod y croesgyfeiriadau at Ddeddfau Seneddol presennol o ran y termau hynny yn cael eu dileu.
- Os bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n penderfynu parhau â'i hymagwedd gyfredol at ddrafftio'r Gorchymyn arfaethedig, rydym yn argymhell y dylai'r diffiniad o landlord cymdeithasol gael ei ddiwygio er mwyn cynnwys cyfeiriad penodol at y term 'landlord cymdeithasol cofrestredig'.
- Yr ymagwedd sydd orau gan y Pwyllgor yw argymhell diwygio'r Gorchymyn arfaethedig er mwyn iddo gyfeirio at 'tai fforddiadwy' yn gyffredinol neu at derm priodol arall, er bod un Aelod o'r farn y dylai ymagwedd o'r fath wahardd y Cynulliad Cenedlaethol yn benodol rhag cael cymhwysedd deddfwriaethol o ran atal neu ddileu'r hawl i brynu neu'r hawl i gael meddiant.
- Fel rhan o'i gwaith ar baratoi ei strategaethau tai newydd, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut y gallai'r system gynllunio gael ei defnyddio i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac felly pa gymhwysedd deddfwriaethol ym Maes 18 (Cynllunio Gwlad a Thref) a fyddai'n fanteisiol i'w helpu i gyrraedd y nod hwnnw.
- Rydym yn argymhell na ddylai'r Gorchymyn arfaethedig gael ei ohirio, ni waeth pa ymagwedd a gaiff ei dewis gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth gyflwyno Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft perthynol i'w gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.
- Rydym yn nodi sylwadau'r Dirprwy Weinidog yn esbonio pam mae cymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei geisio drwy gyfrwng Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn hytrach na thrwy ddarpariaethau yn y *Mesur Tai ac Adfywio* sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Er hynny, wedi ystyried teitl hir y *Mesur*, rydym wedi'n siomi na chytunwyd ar bwerau fframwaith i fynd i'r afael â materion tai fforddiadwy yng Nghymru drwy'r *Mesur Tai ac Adfywio*.

1. Rhagymadrodd

Y Cefndir

1. Ar 3 Rhagfyr 2007, gosododd y Dirprwy Weinidog dros Dai, Jocelyn Davies AC ('y Dirprwy Weinidog'), y Gorchymyn arfaethedig *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008* ('y Gorchymyn arfaethedig') a'r Memorandwm Esboniadol, yn unol â Rheolau Sefydlog 22.13 a 22.14. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael yn Atodiad 1. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog ddatganiad am y Gorchymyn arfaethedig yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Rhagfyr 2007.¹

2. Ar 11 Rhagfyr 2007, cytunodd y Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig at bwyllgor i gael ei ystyried yn fanwl, yn unol â Rheol Sefydlog 22.16. Cytunodd fod rhaid i'r pwyllgor orffen ei ystyriaethau a chyflwyno adroddiad ar y Gorchymyn arfaethedig erbyn 11 Ebrill fan bellaf (cafodd y dyddiad hwn ei ymestyn wedyn gan y Pwyllgor Busnes i 18 Ebrill).²

3. Yn dilyn penderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Rhagfyr 2007, cafodd y Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy ('y Pwyllgor') ei sefydlu yn unol â Rheol Sefydlog 21, i ystyried y Gorchymyn arfaethedig.

4. Rôl y Pwyllgor, fel y mae wedi'i nodi yn Rheol Sefydlog 22.19, yw ystyried y Gorchymyn arfaethedig a chyflwyno adroddiad arno.

Cylch gorchwyl

5. Yn ein cyfarfod ar 13 Rhagfyr 2007, cytunwyd ar y cylch gorchwyl ar gyfer ein gwaith, fel y mae wedi'i nodi isod:

(i) ystyried egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig ac a ddylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes a nodwyd ym Mater 11.1 gael ei roi i'r Cynulliad; a

(ii) ystyried a yw telerau'r Gorchymyn arfaethedig wedi'u diffinio'n rhy fras neu'n rhy gul.

Tystiolaeth

6. Aethom ati i gyhoeddi galwad gyffredinol am dystiolaeth gan wahodd sefydliadau allweddol ym maes tai i gyflwyno dystiolaeth ysgrifenedig i fwydo'n gwaith. Ceir copi o'r llythyr ymgynghori yn Atodiad 2. Mae rhestr o'r ymatebion ymgynghori ar gael yn Atodiad 3.

7. Cymerwyd dystiolaeth lafar oddi wrth nifer o dystion, y mae eu manylion wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.

¹ Cofnod y Trafodion, t39-53, 4 Rhagfyr 2007

² Cytunwyd gan y Pwyllgor Busnes ar 4 Mawrth 2008

8. Mae tystiolaeth ysgrifenedig atodol oddi wrth y Dirprwy Weinidog, dyddiedig 31 Ionawr 2008 a 4 Mawrth 2008, wedi'i chynnwys yn Atodiad 5.

9. O dan Reol Sefydlog 22.21, wrth baratoi'n hadroddiad mae'n rhaid inni, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gymryd i ystyriaeth unrhyw argymhellion a wneir ynglŷn â'r Gorchymyn arfaethedig:

- (i) gan unrhyw un arall o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a
- (ii) gan unrhyw un o bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi neu unrhyw gyd-bwyllgor i'r ddau Dŷ Seneddol.

Does dim argymhellion o'r fath wedi'u gwneud mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig.

10. Yr adroddiad a'r argymhellion canlynol yw'r casgliadau yr ydym wedi dod iddyn nhw ar sail y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ein gwaith.

2. Egwyddor y Gorchymyn arfaethedig

Y cefndir

11. Diben y Gorchymyn arfaethedig yw rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad Cenedlaethol') mewn perthynas â thai fforddiadwy drwy ddiwygio Rhan 1 o Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i fewnosod mater newydd ym Maes 11 (Tai), sef:

Mater 11.1

Gwaredu'r canlynol gan landlord cymdeithasol—

- (a) tŷ annedd o fewn ystyr Rhan 5 o *Ddeddf Tai 1985*;
- (b) annedd o fewn ystyr adran 63 o *Ddeddf Tai 1996*.

Dehongli'r maes hwn

Yn y maes hwn, ystyr "landlord cymdeithasol" yw unrhyw rai o'r canlynol—

- (a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;
- (b) corfforaeth ddatblygu wedi'i sefydlu drwy orchymyn a wnaed, neu sy'n effeithiol fel pe bai wedi'i wneud, o dan *Ddeddf Trefi Newydd 1981*;
- (c) y Comisiwn ar gyfer y Trefi Newydd sy'n parhau mewn bodolaeth yn rhinwedd adran 35 o *Ddeddf Trefi Newydd 1981*;
- (ch) ymddiriedolaeth gweithredu ar dai wedi'i sefydlu o dan adran 62 o *Ddeddf Tai 1988*;
- (d) cymdeithas tai o fewn ystyr adran 5 o *Ddeddf Tai 1985*;
- (dd) ymddiriedolaeth tai o fewn ystyr adran 6 o *Ddeddf Tai 1985*;
- (e) menter gydweithredol dai o fewn ystyr adran 27B o *Ddeddf Tai 1985*;
- (f) corfforaeth datblygu trefol wedi'i sefydlu o dan adran 135 o *Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980*;
- (ff) yr awdurdod perthnasol o fewn ystyr adran 6A o *Ddeddf Tai 1985*;
- (g) yr awdurdod perthnasol o fewn ystyr adran 56 o *Ddeddf Tai 1996*."

*Memorandwm Esboniadol*³

12. Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn arfaethedig, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ('Llywodraeth y Cynulliad') yn esbonio bod ei Strategaeth Dai Genedlaethol⁴ yn nodi gweledigaeth bod eisiau "i bawb yng Nghymru gael cyfle i fyw mewn tai fforddiadwy sydd o ansawdd da; a gallu dewis lle maent yn byw a phenderfynu ai prynu neu rentu ydy'r opsiwn gorau iddynt hwy a'u teuluoedd".⁵

13. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn esbonio ymhellach ei bod wedi defnyddio'i phwerau deddfu presennol i "feithrin dull neilltuol o weithredu sydd wedi'i deilwra i amgylchiadau penodol Cymru".⁶ Er hynny, mae o'r farn bod y setliad presennol mewn rhai ffyrdd yn atal Llywodraeth y Cynulliad rhag mynd i'r afael â blaenoriaethau a materion Cymru, gan nodi bod ei phwerau presennol wedi'u cyfyngu mewn nifer o feysydd.⁷

14. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn esbonio mai prif ddiben y Gorchymyn arfaethedig yw rhoi pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud Mesurau:

"...a fyddai'n rhoi eu heffaith i ba benderfyniadau bynnag ar bolisi y bydd Gweinidogion Cymru yn bwrw ymlaen â hwy maes o law i wella'r nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael yng Nghymru".⁸

ac, yn benodol, y byddai'r Gorchymyn arfaethedig:

"...yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu er mwyn caniatáu i'r Hawl i Brynu neu'r Hawl i Gaffael gael ei hatal dros dro mewn ardaloedd penodol ac am gyfnodau penodol ac i ddiffinio o dan ba amgylchiadau neu amodau y câi ataliad dros dro o'r fath ei ystyried neu ei ganiatáu...".⁹

15. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn esbonio bod "cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy i'w rhentu ac i'w prynu yn faes sydd â blaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru"¹⁰ a bod ei bwriad i sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol er mwyn atal yr hawl i brynu mewn ardaloedd lle mae yna bwysau ar dai yn un o'r ymrwymadau yn rhaglen lywodraethu¹¹ Cymru'n Un.¹²

³ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Dai, Y Gyfraith Gyfansoddiadol: Datganoli, Cymru, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008 Tai Fforddiadwy - Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol*, Rhagfyr 2007

⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cartrefi Gwell i Bobl Cymru, Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru*, 2001

⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8

⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 9

⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 11

⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraff 21

⁹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 20

¹⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 21

¹¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 16

¹² Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cymru'n Un - Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru, Cytundeb rhwng Grwpiau'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol*, 27 Mehefin 2007

Tystiolaeth y sefydliadau

16. Ymhlith y rhai a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori, cafwyd cefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig.

17. Nododd Cymorth Cymru fod y Gorchymyn arfaethedig “comes against the backdrop of a prolonged depletion of social housing stock in Wales, and growing concern about the impact that this is having on the availability of secure, affordable accommodation across all housing sectors.”¹³

18. Ym marn Cyngor Sir Caerfyrddin roedd y pwerau a oedd yn cael eu ceisio drwy'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnig:

“... natural extension of legislative powers currently held by the Assembly on housing matters...”¹⁴

19. Wrth leisio'u cefnogaeth nhw, dywedodd Sefydliad Tai Siartredig Cymru:

“We feel it is appropriate that the Assembly should have legislative powers to address housing challenges and implement solutions specific to Wales.”¹⁵

20. Barn Shelter Cymru oedd y byddai'r pwerau yn y Gorchymyn arfaethedig yn gwneud “a contribution to addressing the shortage of affordable housing in Wales”.¹⁶

21. Er hynny, daeth rhai tystion i'r casgliad mai cyfyngedig oedd potensial y Gorchymyn arfaethedig i gael effaith ar brinder presennol tai fforddiadwy.

22. Wrth gefnogi'r Gorchymyn arfaethedig, awgrymodd Shelter Cymru y byddai'n fuddiol atal yr hawl i brynu fel un dull ymhlith eraill a allai helpu i reoli colledion yn y stoc dai ond mai ymylol yn unig fyddai effaith gwneud hynny.¹⁷ Aethon nhw ymlaen i esbonio:

“...perhaps in the past suspension would have been a far more useful tool to prevent the loss of council housing that has occurred over the last 20-odd years... and... perhaps the time has passed for this power to make a huge difference.”¹⁸

¹³ Cymorth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH2

¹⁴ Cyngor Sir Caerfyrddin, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH1

¹⁵ Sefydliad Siartredig Tai Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH6

¹⁶ Shelter Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH10

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau [6 ac 8], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff [25], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

23. Er hynny, cydnabu Shelter Cymru y byddai potensial y Gorchymyn arfaethedig i wneud gwahaniaeth yn cynyddu pe bai'r cyflenwad o dai cymdeithasol yn cynyddu yn y dyfodol:

“We also have to think about the future, and whether there will be a further increase in social housing. If you have the ability to control the potential loss of that social housing, that could be useful. So I do not think that it is just about now, it is about what might happen in the future. I am optimistic that we will see an increase in social housing in the future and maybe having this kind of Measure will be useful.”¹⁹

24. Cafodd y pwynt hwn ei adleisio gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a oedd yn dadlau y byddai atal yr hawl i brynu'n gwneud cyfraniad bach ond gwerthfawr.²⁰ Er bod y niferoedd sy'n cael eu gwerthu drwy'r hawl i brynu a'r hawl i gael meddiant wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, ac mai newid cymharol fach y byddai atal yr hawl i brynu yn ei wneud ar hyn o bryd felly, nododd y Gymdeithas hefyd y gallai hynny newid gyda newid yn y farchnad dai.²¹

25. Daeth Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) Cymru i'r casgliad mai ymylol fyddai effaith y Gorchymyn arfaethedig ar fynd i'r afael â materion tai fforddiadwy,²² ac roedd Sefydliad Tai Siartredig Cymru o'r farn bod y cynnig yn weddol gyfyngedig.²³ Mynegodd Sefydliad Tai Siartredig Cymru rywfaint o ansicrwydd hefyd ynghylch pa mor gynhyrchiol y byddai'r Gorchymyn arfaethedig wrth ateb ei ddiben²⁴, gan gyfeirio ato fel dull i ddarparu tai fforddiadwy “and probably no more than that.”²⁵ Serch hynny, roedd y ddau sefydliad o blaid egwyddor y Gorchymyn arfaethedig.²⁶

26. Pan gafodd ei holi a fyddai atal yr hawl i brynu yn cyfrannu at wella argaeledd tai fforddiadwy yng Nghymru, dywedodd yr Athro Steve Wilcox o Brifysgol Caerefrog nad oedd yn credu y byddai.²⁷

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

27. Yn ei thystiolaeth hithau i'r Pwyllgor, esboniodd y Dirprwy Weinidog:

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [25], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff [78], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff [79], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

²² Cofnod y Trafodion, paragraffau [7 ac 21], 19 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff [77], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraffau [77 a 88], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff [107], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff [21], 19 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy; Cofnod y Trafodion, paragraffau [77 ac 82], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau [136-137], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

“The purpose of the LCO is to enable the Assembly to amend, or repeal, Part V of the Housing Act 1985, dealing with the right to buy a dwelling-house, and sections 16 and 17 of the Housing Act 1996, dealing with the right to acquire a dwelling. This is so that, in due course, we can produce a Measure suspending the right to buy and the right to acquire in areas of pressure, in line with the ‘One Wales’ commitment.”²⁸

28. Er bod rhai pwerau'n bodoli mewn perthynas â'r hawl i brynu, esboniodd nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad y pwerau i'w hatal ac y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn eu galluogi i wneud hynny.²⁹

29. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog fod rhychwant y Gorchymyn arfaethedig yn ymestyn y tu hwnt i atal y cynllun hawl i brynu a'r cynllun hawl i gael meddiant, gan nodi:

“...we did not want it to be very narrow, because that might have meant that, shortly, you would have had to go through this process again....the housing field seems to have a lot of legislation and is very complex and you could easily leave something out and then find that you needed that power to achieve what you wanted to achieve a little later on.”³⁰

30. Yn y cyd-destun hwn, nododd y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn caniatáu i'r hawl i brynu gael ei diwygio'n llwyr,³¹ gan gynnwys ei dileu.³²

31. Nododd hefyd y byddai rhychwant y Gorchymyn arfaethedig yn rhoi pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu mewn perthynas â throsglwyddo stoc³³ fel y mae'n gymwys i dai annedd ac anheddau.³⁴

Ein barn ni

32. Rydym yn nodi'r gefnogaeth eang a gafwyd i'r Gorchymyn arfaethedig ac yn benodol nad oes yr un sefydliad nac unigolyn wedi gwrthwynebu, o ran egwyddor, roi cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodwyd yn y Gorchymyn arfaethedig. Rydym hefyd yn nodi'r rhesymau a gynigiwyd gan y Dirprwy Weinidog dros ofyn am y cymhwysedd deddfwriaethol hwn. Er bod pedwar aelod o'r Pwyllgor o blaid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol o'r fath

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff [6], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [8], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff [31], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff [103], 26 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

³² Cofnod y Trafodion, paragraffau [143 and 145], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

³³ Trosglwyddo stoc, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel trosglwyddo gwirfoddol ar raddfa fawr, yw'r broses lle bydd awdurdodau lleol yn trosglwyddo perchnogaeth a rheolaeth eu stoc dai i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraffau [67-69], 26 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

i'r Cynulliad Cenedlaethol, roedd un Aelod yn erbyn rhoi pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol a fyddai'n ei alluogi i atal neu i ddiddymu'r hawl i brynu neu'r hawl i gael meddiant. Gan hynny, **mae'r mwyafrif o aelodau'r pwyllgor yn cytuno, o ran egwyddor, y dylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodwyd yn y Gorchymyn arfaethedig gael ei roi i'r Cynulliad Cenedlaethol.**

33. Er hynny, wrth bwysu a mesur a yw'r Gorchymyn arfaethedig yn rhy fras neu'n rhy gul, a'r dystiolaeth a ddaeth i law, rydym yn credu bod angen ailystyried gwaith drafftio penodol yn y Gorchymyn arfaethedig. Mae paragraffau 34 i 96 yn ystyried y mater hwn ymhellach.

3. Defnyddio diffiniadau yn y Gorchymyn arfaethedig

Y Cefndir

34. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae'r Gorchymyn arfaethedig yn darparu diffiniadau o 'tŷ annedd', 'annedd' a 'landlord cymdeithasol' drwy groesgyfeirio at Ddeddfau Seneddol presennol. Er hynny, nid yw 'gwaredu' wedi'i ddiffinio o gwbl.³⁵

Tystiolaeth y sefydliadau - yr ymagwedd gyffredinol

35. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru na ddylai diffiniadau newydd o dai cymdeithasol gael eu creu, a hynny "in the interest of simplicity and in order to reduce the potential for confusion."³⁶ Mynegodd y Gymdeithas hefyd fod angen eglurder³⁷ ac rodden nhw o blaid diffinio termau yn y Gorchymyn arfaethedig yn hytrach nag yn y Mesur arfaethedig er mwyn osgoi defnyddio diffiniadau gwahanol, gan ailadrodd y pwynt y gallai hynny achosi dryswch.³⁸

36. Tanlinellodd Sefydliad Tai Siartredig Cymru fanteision ac anfanteision posibl yr ymagwedd a oedd yn cael ei mabwysiadu:

"...the definitions must achieve what you set out to gain. There is always much more clarity when consistent terms are used across different pieces of legislation....but, really, the important thing is what you want to achieve from it, as far as the definitions are concerned. The other side of having consistency is getting hung up on terms that are already there. I think that they have to be fit for purpose."³⁹

37. Awgrymodd yr Athro Steve Wilcox mai doeth yw dilyn cynsail oni bai bod rheswm da dros wneud yn wahanol.⁴⁰

38. Mewn cyflwyniad ysgrifenedig atodol, dywedodd Shelter Cymru:

"We do not believe that the LCO itself should include definitions as these can be contained in the subsequent measure. This could be achieved quite simply by adopting the text of the relevant Westminster legislation or developing Welsh definitions; allowing the Assembly the freedom to define the relevant terms as it wishes. The Assembly could of course use sections of the existing legislation e.g.

³⁵ Mae difiniadau o 'disposal' i'w gweld ym mharagraff 10 o Atodlen 9A i *Ddeddf Tai 1985* ac adran 9(7) o *Ddeddf Tai 1996*.

³⁶ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH12

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff [118], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau [114 a 118], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [119], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff [195], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

some existing definitions, in addition to its own definition of some relevant terms, such as social landlord etc.

This would be similar to the line taken with other LCO's in that definitions are not included but left to the measures themselves."⁴¹

Tystiolaeth y sefydliadau - gwaredu

39. O ran ystyr 'gwaredu', dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn rhagdybio y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn egluro bod trosglwyddo pŵer yn golygu gwaredu mewn ystyr statudol (hynny yw yr hawl i brynu / yr hawl i gael meddiant) yn hytrach na'r ystyr wirfoddol⁴² (hynny yw trosglwyddo stoc).

40. Roedd Sefydliad Tai Siartredig Cymru yn credu bod 'gwaredu' yn golygu "the transfer of land or an asset for a defined purpose" a bod ei ystyr yn weddol glir,⁴³ gan ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y Gorchymyn arfaethedig.

41. Awgrymodd yr Athro Wilcox "it can be quite helpful to have loose phrasing that can encompass a number of different forms of disposal."⁴⁴

42. Ychydig yn wahanol oedd barn TPAS Cymru:

"It seems that 'disposal', in general terms, could include disposal in stock transfer terms. That would seem not to be useful in terms of the LCO's intent. Perhaps that suggests that some effort should be made to provide a definition that excludes it ... On disposal, specifically, it seems that it could cover stock transfer in terms of how it is stated now and perhaps that needs clarifying."⁴⁵

Tystiolaeth y sefydliadau - landlord cymdeithasol

43. Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig nhw, dywedodd Cyngor Sir Ddinbych y dylai'r diffiniad o 'landlord cymdeithasol' gael ei lunio:

"...to include Local Authorities, Registered Social Landlords but also other bodies such as Community Land Trusts who receive public subsidy towards housing provision."⁴⁶

44. Awgrymodd Cartrefi Cymunedol Cymru y dylai'r diffiniad o 'landlord cymdeithasol' gyfeirio at 'landlord cymdeithasol cofrestredig' gan y gallai'r

⁴¹ Shelter Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig Atodol, AH10

⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff [60], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraffau [125-127], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff [198], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff [63], 19 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁴⁶ Cyngor Sir Ddinbych, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH5

diffiniad o ‘cymdeithas tai’ a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y Gorchymyn arfaethedig hepgor cwmnïau tai cymunedol cydfuddiannol o rychwant y Gorchymyn arfaethedig.⁴⁷ Wrth wneud yr awgrym hwn, dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru:

“It is important that the new LCO and the Measures that flow from it are able to not only deal with the current situation, but to anticipate change, because there has been a huge amount of change over the past two years, particularly with regard to whom the social landlord is and with stock transfer occurring in a total of six local authority areas.”⁴⁸

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

45. Esboniodd y Dirprwy Weinidog a’i chyngorwyr cyfreithiol pam yr oedd y Gorchymyn arfaethedig yn diffinio termau drwy groesgyfeirio at Ddeddfau Seneddol presennol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“I think that there is always an attempt, when drawing up legislation, to be consistent, and definitions can make a huge difference. Even though, as lay people, you might say, ‘Well, I know what a dwelling is, or what premises are’, and it is often the case that these things are defined in relation to other pieces of legislation.”⁴⁹

46. Ychwanegodd cyngorydd cyfreithiol y Dirprwy Weinidog fod angen i’r Gorchymyn arfaethedig gael ei ddiffinio:

“... with reference to existing legislation and it tied in nicely with ‘dwelling’, which is defined in the Housing Act 1996, and ‘dwelling-house’, which is defined in the Housing Act 1985.”⁵⁰

ac:

“I think that we need to define, for the purposes of the LCO, what ‘social landlord’ is; we needed some certainty in there as to what a social landlord is. The definition is based on the definition in section 80 of the Housing Act 1985. Because of the way in which housing has developed historically, for example, we refer to ‘a housing association within the meaning of section 5 of the Housing Act 1985’ and ‘the relevant authority within the meaning of section 6A of the Housing Act 1985’. All the other definitions, as I say, are taken from section 80 of the 1985 Act.”⁵¹

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau [43-52], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff [48], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [92], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff [93], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff [97], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

47. Wrth gael ei holi wedyn mewn perthynas â'r diffiniad o 'landlord cymdeithasol' sydd wedi'i ddefnyddio yn y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"As I said earlier, we want the widest possible definition to be included in the LCO, regardless of how we would use the Measure-making powers later. We would certainly want the LCO to capture the social landlords that operate in Wales."⁵²

48. O'i holi am bosibilrwydd ysgrifennu sylwedd y diffiniadau yn y Gorchymyn arfaethedig (yn hytrach na chroesgyfeirio at Ddeddfau Seneddol presennol neu gynnwys y diffiniadau yn y Mesurau arfaethedig), dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"...we have chosen to do it in this way to create absolute certainty about what we intend to do."⁵³

gan bwysleisio wedyn mor bwysig oedd cael sicrwydd ynghylch pa bwerau yn union sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol.⁵⁴

49. Pan awgrymwyd y gallai'r ymagwedd a oedd wedi'i mabwysiadu gulhau rhychwant y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"We feel that the way that the LCO is drafted would give us the powers that we need for the policy objective that we intend to pursue."⁵⁵

50. Pe bai'r Deddfau Seneddol sy'n cynnwys y diffiniadau y cyfeirir atyn nhw yn y Gorchymyn arfaethedig yn cael eu diwygio, esboniodd y Dirprwy Weinidog hefyd y byddai yna "system whereby the definitions would be altered in the Government of Wales Act 2006".⁵⁶

51. O ran y diffyg diffiniad ar gyfer 'gwaredu', esboniodd y Dirprwy Weinidog:

"We did not feel that it needed to be defined. We think that everybody will understand what that means."⁵⁷

52. Ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog at y Pwyllgor i egluro ystyr 'gwaredu' ac a oedd yn cynnwys trosglwyddo stoc neu beidio.⁵⁸ Yn ei llythyr,

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff [99], 26 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff [101], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁵⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 12, 23, 50 and 136], 26 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff [103], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff [44], 26 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff [107], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

cadarnhaodd y byddai'r term 'gwaredu' yn cynnwys trosglwyddo stoc fel y mae'n cyfeirio at waredu tŷ annedd neu annedd (fel y maen nhw wedi'u diffinio gan y Deddfau Seneddol perthnasol).

53. Dywedodd llythyr y Gweinidog hefyd:

"It is not considered desirable to limit the term "disposal" in the LCO, but if the concept needs to be narrowed when we come to consider the precise legal reforms required, that can be done in the Measure."⁵⁹

Ein barn ni

54. Rydym yn nodi bod y Gorchymyn arfaethedig yn diffinio 'tŷ annedd', 'annedd' a 'landlord cymdeithasol' drwy groesgyfeiriadau at Ddeddfau Seneddol presennol. Dydyn ni ddim yn cytuno â'r dull hwn. Er ein bod yn cydnabod mai rhoi sicrwydd yw'r bwriad, rydyn ni'n bryderus y gallai'r dull hwn gulhau rhychwant y Gorchymyn arfaethedig yn ddamweiniol ac efallai lleihau'r ystwythder i ddeddfu drwy gyfrwng mesur arfaethedig ar yr adeg briodol. Er enghraifft, fel y mae tystiolaeth Cartrefi Cymunedol Cymru ym mharagraff 44 yn ei awgrymu, nid yw'n gwbl glir a fyddai rhychwant y Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys pob landlord cymdeithasol cofrestredig, sef term na chyfeirir ato yn y Gorchymyn arfaethedig ar hyn o bryd.

55. Rydyn ni'n credu y gallai'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn enwi'r sefydliadau y mae'n bwriadu eu cynnwys, a chaniatáu hyblygrwydd i Lywodraeth y Cynulliad benderfynu ar hyd a lled darpariaethau'r Mesur arfaethedig pan gaiff ei ddrafftio.

56. Mae'r casgliad rydyn ni wedi dod iddo hefyd yn adlewyrchu pryderon sydd gennym y gallai diwygio neu ddiddymu unrhyw un o'r darpariaethau statudol mewn Deddfau Seneddol fwrw amheuaeth ar ddilysrwydd parhaus Mesurau a fyddai wedi'u gwneud drwy ddibynnu ar y darpariaethau hynny.

57. Wrth ffurfio'n barn, rydym yn nodi hefyd nad yw'r Gorchymyn arfaethedig yn diffinio'r term 'gwaredu' drwy groesgyfeirio at Ddeddfau Seneddol presennol a bod modd i hynny gael ei wneud wedyn, ym marn y Dirprwy Weinidog, drwy Fesur arfaethedig. Rydym yn cytuno ar yr ymagwedd hon ac yn credu bod y ddatllyth yn un mor gymwys i dermau eraill yn y Gorchymyn arfaethedig a, pe bai'n cael ei mabwysiadu, byddai'n sicrhau ymagwedd gyson yn y Gorchymyn arfaethedig.

58. Gan hynny, o ran y Gorchymyn arfaethedig fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, rydym yn argymhell y dylai gael ei ddiwygio fel bod y termau 'tŷ annedd', 'annedd' a 'landlord cymdeithasol' heb eu

⁵⁸ Llythyr Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai, 31 Ionawr 2008

⁵⁹ Ibid

diffinio ac, oherwydd hynny, fel bod y croesgyfeiriadau at Ddeddfau Seneddol presennol o ran y termau hyn yn cael eu dileu.

59. Er hynny, os bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n penderfynu parhau â'i hymagwedd gyfredol at ddrafftio'r Gorchymyn arfaethedig, rydym yn argymhell y dylai'r diffiniad o landlord cymdeithasol gael ei ddiwygio er mwyn cynnwys cyfeiriad penodol at y term 'landlord cymdeithasol cofrestredig'.

4. Rychwant y Gorchymyn arfaethedig

Y Cefndir

60. Gofynnodd y Pwyllgor i'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw a'r tystion roi eu barn a oedd rychwant y Gorchymyn arfaethedig yn rhy gul neu'n rhy fras.

61. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i gwneud yn glir mai cyflwyno Mesur arfaethedig i atal yr hawl i brynu a'r hawl i gael meddiant yw diben y Gorchymyn arfaethedig,⁶⁰ er ei bod wedi cydnabod bod ei rychwant yn ehangach, yn yr ystyr y byddai'n caniatáu i'r cynlluniau hyn gael ei diwygio'n llwyr.⁶¹

Tystiolaeth y sefydliadau - sylwadau cyffredinol

62. Wrth ymateb i'n cais, awgrymodd nifer o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw a'r tystion fod y Gorchymyn arfaethedig wedi'i ddiffinio'n rhy gul i ymdrin â materion tai fforddiadwy,⁶² ac awgrymai eraill fod y pŵer wedi'i lunio'n briodol⁶³ ac yn benodol felly yng nghyd-destun yr hawl i brynu.⁶⁴

63. Mynegwyd y farn nad yw materion tai fforddiadwy yn ymateb yn dda ar y cyfan i gamau sy'n cael eu cymryd drwy ddeddfwriaeth.⁶⁵ Ar y llaw arall, nodwyd y gallai'r potensial ar gyfer ymyrryd drwy ddeddfu gael ei nodi fel rhan o waith Llywodraeth y Cynulliad i baratoi strategaethau newydd ynglŷn â thai (sef strategaeth dai newydd i Gymru, cynllun 10 mlynedd i ymdrin â digartrefedd a strategaeth newydd ynglŷn â chefnogi pobl) sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.⁶⁶

Tystiolaeth y sefydliadau - y camau y mae eu hangen i fynd i'r afael â thai fforddiadwy

64. Awgrymodd nifer o sefydliadau fod atal yr hawl i brynu a'r hawl i gael meddiant yn un yn unig o'r dulliau y mae eu hangen i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â thai fforddiadwy a bod angen arddel agwedd ehangach.

65. Pan holwyd sut yr hofffen nhw weld rychwant y Gorchymyn arfaethedig yn cael ei ehangu, tanlinellodd TPAS Cymru anhawster sy'n gyffredin i lawer o'r tystion:

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff [6], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff [103], 26 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁶² Er enghraifft, Shelter Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH10; TPAS Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH11

⁶³ Yr Eglwys yng Nghymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH4

⁶⁴ Grŵp Tai Pennaf, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH8; Cofnod y Trafodion, paragraffau [14 a 23], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff [14], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau [12, 35 ac 87] 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

“It is very difficult, because of its technical, legal nature, to suggest that you should do x, y and z. I can deal with this better in broader policy terms...”⁶⁷

66. O ganlyniad, cyflwynodd llawer o sefydliadau awgrymiadau o ran y camau polisi ehangach y mae angen eu cymryd er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, yn hytrach nag enwi newidiadau penodol yn y ddeddfwriaeth yn y Gorchymyn arfaethedig a fyddai'n cynnwys y camau eu hunain. Cafodd amrywiaeth o sylwadau eu cynnig ac mae rhai o'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y paragraffau sy'n dilyn.

67. Dangosodd rhai sefydliadau eu bod o blaid gweld y Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau pwerau ehangach mewn perthynas â thai. Mynegodd TPAS Cymru gefnogaeth i ddatganoli'r polisi tai yn llwyr i Gymru, gan ddatgan:

“...in order to ensure that the range of important issues which impact on housing in Wales are addressed, the Assembly Government should request all legislation making powers, in relation to social housing, be devolved.”⁶⁸

er eu bod yn cydnabod wrth gael eu holi y gallai fod yn briodol dechrau ag ymagwedd gyfyngedig ac wedyn datblygu pecyn mwy cynhwysfawr⁶⁹ (gweler paragraff 80).

68. Dywedodd Cyngor Sir Ddinbych, wrth gefnogi egwyddor y Gorchymyn arfaethedig, yr hoffon nhw weld “the broadest possible interpretation so that the Assembly can introduce measures in support of Affordable Housing provision.”⁷⁰

69. Cyfeiriodd llawer o'r dystiolaeth ysgrifenedig at yr effaith gyfyngedig a gâi atal yr hawl i brynu / yr hawl i gael meddiant o ran cynyddu'r tai fforddiadwy sydd ar gael. Cafodd y pwynt hwn ei wneud gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru, a ddywedodd hyn:

“A measure to allow local authorities to apply to suspend the Right to Buy will not increase the supply of social housing lettings in the short term.”⁷¹

gan awgrymu y dylai'r Gorchymyn arfaethedig gael ei ystyried “in the light of [the] wider housing policy context”, gan gyfeirio at y strategaeth dai genedlaethol newydd a'r cynllun digartrefedd sy'n cael eu datblygu.⁷²

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff [21], 19 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁶⁸ TPAS Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH11

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [42], 19 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁷⁰ Cyngor Sir Ddinbych, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH5

⁷¹ Sefydliad Siartredig Tai Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH6

⁷² Ibid

70. Dywedodd Shelter Cymru eu bod yn credu bod y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn rhy gul, gan nodi hyn:

“It may be, for example, that the Assembly may wish to acquire powers that will ease the development of Community Land Trusts, or improve the provision of land in general, or planning measures with regard to the control of second homes, empty homes, tenure reform or indeed reforming homeless persons legislation which would also impact on affordable housing.”⁷³

71. O’u holi, ymhelaethodd Shelter Cymru ar y pwyntiau hyn:

“...if the Assembly wants to look in any real way at the possibilities of Measures and keep the heading of ‘affordable housing’, it is going to have to look beyond the issue of housing itself to land and planning in particular.”⁷⁴

a chynnig enghreifftiau penodol o sut y gallai hynny gael ei wneud:

“Possibly, in relation to second homes, the idea that a second home needs to be agreed through the planning process by a local authority might be an interesting issue to consider. There may be other issues as well related to planning, land and, for example, the development of community land trusts, with, again, some presumptions in favour of affordable housing in the planning system.”⁷⁵

ac

“It is possible to set up community land trusts under the present powers, because three are already in existence in Wales. So I am not suggesting that it is not possible, but it might be possible to facilitate an easier set-up of community land trusts via an LCO.”⁷⁶

72. Mewn ymateb i gwestiwn am fanteision cael un Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar dai fforddiadwy, a hwnnw wedi'i ddiffinio'n briodol, yn hytrach na chyfres o Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig a fyddai'n canolbwyntio ar feysydd gwahanol a allai effeithio ar y tai fforddiadwy sydd ar gael, dywedodd Shelter Cymru:

“I would suspect...that a broader LCO, which would allow you to create the necessary Measures in a wider range of areas, might be more useful.”⁷⁷

⁷³ Shelter Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH10

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff [14], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff [18], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff [20], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff [14], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

73. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“The challenges that Authorities face in increasing the supply of affordable housing are considerable and straddle the interface of housing and planning. It is therefore very important that there is a holistic response to the issues including consideration of wider housing and planning legislation.”⁷⁸

74. Wrth gael eu holi, tanlinellodd y Gymdeithas hefyd faterion cynllunio a materion tir fel rhai sy'n haeddu cael eu hystyried ymhellach:

“The debate is under way about how we need to address issues in Wales, and what potential there is for further legislation. It would be unfortunate to prejudge that debate, which will involve voices from many different sectors. However, at a generic level, planning, building regulations and, possibly, land supply, would be three areas that would I point to.”⁷⁹

75. Pwyntiodd y Gymdeithas hefyd at ddeiliadaeth niwtral fel opsiwn i'w ystyried:

“We are looking at neutral tenure.... Within that particular system, we are coming up against problems with regard to its funding and its future funding. We are not quite clear about and... we are having to clarify, whether the Assembly already has the powers to facilitate the progression of neutral tenure or whether you will need additional powers to protect those properties and to look at the financing of those properties.”⁸⁰

76. Cafodd deiliadaeth niwtral ei chefnogi'n gryf hefyd gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru.⁸¹

77. Er eu bod yn awgrymu bod y Gorchymyn arfaethedig yn ddigon eang, nododd Cartrefi Cymunedol Cymru fod rhai o'r heriau ym maes tai yn gysylltiedig â materion cynllunio, gan awgrymu y gallai rhagor o bwerau gael eu datganoli drwy'r *Mesur Cynllunio*,^{82, 83} sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd.

78. Roedd yr awgrymiadau eraill ar gyfer meysydd y mae angen eu hystyried er mwyn rhoi sylw i'r prinder tai fforddiadwy yn cynnwys diwygio'r

⁷⁸ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH12

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [92], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff [98], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁸¹ Sefydliad Siartredig Tai Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH6; Cofnod y Trafodion, paragraff [96], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁸² Y cyfeirir ato weithiau fel y *Mesur Diwygio Cynllunio*

⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraffau [14 a 34], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

rheoleiddio ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig,⁸⁴ benthyciadau cymdeithasau tai,⁸⁵ y polisi ar ddyrannu tai⁸⁶ a chaniatáu i'r derbyniadau o werthiannau'r hawl i brynu gael eu defnyddio i ddatblygu cartrefi yn le'r rhai sy'n cael eu gwerthu.⁸⁷

Tystiolaeth y sefydliadau - gohirio'r Gorchymyn arfaethedig

79. Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig, argymhellodd Cymorth Cymru y dylai'r Gorchymyn arfaethedig gael ei ohirio er mwyn cymryd i ystyriaeth ddatblygiadau'r strategaethau ehangach sy'n ymwneud â thai.⁸⁸ Cynigiodd Shelter Cymru hyn hefyd fel un opsiwn i'w ystyried, ac un arall oedd llunio "an Order which is more widely defined and which would later allow further housing related legislation."⁸⁹

80. O'u holi am eu hymagwedd nhw, nododd Shelter Cymru benbleth o ran pa ymagwedd yw'r orau:

"I suppose our concern, and the concern of other people that I have spoken to, is whether this might be the last shot that we will have for some time. In that case, would it be better to wait six or seven months, while the Assembly-facilitated groups develop their ideas? Then, when those ideas emerge, it might be possible to capture a broader set of instruments that might make a reasonable contribution on the issue of affordable housing. Alternatively, if we wait, might we lose out in some ways? Will it be a long time before we come back to address some of the issues that may be identified as key elements of a developing housing strategy? If the housing strategy is to be launched next year, and there are identified areas that could assist in affordable housing through Measures, how long will it be until we get back to that?"⁹⁰

81. Ar ddiwedd eu sesiwn tystiolaeth, ar sail y drafodaeth, awgrymodd Shelter Cymru hyn: "a broader Order may be a better approach".⁹¹

82. Edrychodd y Pwyllgor ar gwestiwn gohirio'r Gorchymyn arfaethedig gyda thystion eraill.

83. Mynegodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru deimladau tebyg⁹² i'r rhai a fynegwyd gan Shelter Cymru ym mharagraff 80 uchod. Roedd Cartrefi

⁸⁴ Cartrefi Cymunedol Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH3

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff [26], 19 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff [45], 19 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁸⁷ Sefydliad Siartredig Tai Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH6

⁸⁸ Cymorth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH2

⁸⁹ Shelter Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, AH10

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff [33], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff [53], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁹² Cofnod y Trafodion, paragraffau [87 and 89], 29 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

Cymunedol Cymru yn erbyn gohirio'r Gorchymyn arfaethedig, gan awgrymu mai'r peth gorau oedd gofyn am bwerau nawr i atal yr hawl i brynu, o gofio y gallai datblygu strategaeth dai genedlaethol newydd olygu na fyddai gwaith ar Orchymyn arfaethedig a'r Mesurau i gyd-fynd ag ef yn cael ei wneud tan 2010 neu 2011.⁹³ Ar y cyfan, roedd Sefydliad Tai Siartredig Cymru hefyd o blaid cymryd y pwerau nawr yn hytrach na gohirio.⁹⁴ Doedd TPAS Cymru ddim o blaid gohirio'r Gorchymyn arfaethedig ond fe ddywedon nhw hyn:

“...perhaps there is an argument for saying that we should do something limited to get it on the books and get the experience under our belts and then, when the housing strategy comes along, we will look at something more comprehensive with the benefit of the experience that we have gained from doing a limited LCO.”⁹⁵

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

84. Pan ofynnwyd iddi a yw'r Gorchymyn arfaethedig wedi'i ddrafftio'n ddigon bras i ganiatáu i Lywodraeth y Cynulliad fodloni ei hamcanion polisi ym maes tai fforddiadwy, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Yes, because, as I mentioned earlier, in relation to the right to buy scheme, this would definitely allow us to suspend, on an application being made by a local authority, the right to buy in specific areas of high housing pressure. So, yes, this would achieve that.”⁹⁶

85. Yn nes ymlaen, ychwanegodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Dirprwy Weinidog hyn:

“There are certain issues around the affordable housing policy, and many things are under way to address them. In terms of this LCO being able to address them on the legislative side, however, this is probably broad enough to address the specific social housing issues that we need to deal with.”⁹⁷

86. Serch hynny, cydnabu'r Dirprwy Weinidog nad oedd y Gorchymyn arfaethedig erioed wedi cael ei gyflwyno fel “the big panacea to solve affordable housing problems in Wales”⁹⁸ ac y byddai'n un dull a fyddai ar gael “to local authorities to consider when formulating their policies on

⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraff [38], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff [99], 5 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff [42], 19 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff [37], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff [42], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff [108], 26 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

affordable housing”.⁹⁹ Er nad oedd yn gwbl sicr bod gan Lywodraeth y Cynulliad bob un pŵer yr oedd ei angen at yr holl bolisiau sydd heb eu datblygu eto, nododd y Dirprwy Weinidog hefyd fod ganddyn nhw'r “powers to fulfil our ‘One Wales’ commitment on housing.”¹⁰⁰

87. Ar gwestiwn penodol gohirio'r Gorchymyn arfaethedig i gymryd i ystyriaeth unrhyw argymhellion ar gyfer Mesurau arfaethedig a allai godi o ddatblygu'r strategaethau ynglŷn â thai, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“...there is a possibility that, while these strategies are being developed, a lack of powers may very well be identified. However, that may not be the case, so we did not want to delay this now, because it is quite a distinct commitment in ‘One Wales’. We did not want to delay this in case we required further powers later on. As I told you the last time that I appeared before this committee, if the need for further powers is identified, then we will go for another LCO. However, whenever we go for an LCO, we would try to get some certainty and clarity around the competence.”¹⁰¹

88. Wrth ystyried awgrym y gallai'r Gorchymyn arfaethedig gael ei ehangu i gynnwys tai fforddiadwy yn gyffredinol (gan ganiatáu i amrediad ehangach o Fesurau gael eu gwneud felly wrth i'r strategaethau sy'n ymwneud â thai gael eu datblygu, heb fod angen rhagor o Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol), dywedodd y Dirprwy Weinidog hyn: “the term ‘affordable housing’ gives all sorts of impressions, and ... would not be clear enough”.¹⁰²

Ein barn ni

89. Rydym yn nodi barn llawer o ymatebwyr bod atal yr hawl i brynu a'r hawl i gael meddiant, a fyddai'n cael ei alluogi drwy'r Gorchymyn arfaethedig hwn a Mesur arfaethedig dilynol, yn un dull yn unig sy'n angenrheidiol er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym yn nodi eu barn mai ymylol yn unig fyddai effaith atal yr hawl i brynu a'r hawl i gael meddiant, er bod hynny'n dal yn ddefnyddiol serch hynny.

90. Rydym yn nodi'r camau ychwanegol yr awgrymodd y tystion y gallai fod eu hangen er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, ond nad oedd bob amser yn glir a fyddai angen i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau pwerau i ddeddfu ar gyfer y camau hyn er mwyn iddyn nhw gael eu cymryd yn llwyddiannus.

⁹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [108], 26 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff [117], 26 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, paragraff [140], 26 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

¹⁰² Cofnod y Trafodion, paragraff [142], 26 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

91. Rydym yn nodi hefyd fod Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n gwneud gwaith ar baratoi strategaethau newydd sy'n ymwneud â thai a'r awgrym y gallai'r gwaith hwnnw ddod o hyd i gamau deddfwriaethol i helpu i fynd i'r afael â'r prinder tai fforddiadwy yng Nghymru. Rydym hefyd yn nodi barn y Dirprwy Weinidog y byddai rhagor o Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn cael eu ceisio pe bai'r angen am ragor o bwerau yn cael ei weld yn sgil y gwaith hwn.

92. Er ein bod yn nodi barn y Dirprwy Weinidog na fyddai cyfeirio at y term 'tai fforddiadwy' yn unig yn y Gorchymyn arfaethedig yn glir, rydym yn dal o'r farn mai dyna'r dull gorau a mwyaf effeithiol. Rydym yn credu y byddai'n rhoi i Lywodraeth y Cynulliad yr hyblygrwydd mwyaf posibl yn y maes polisi hwn. Byddai hefyd yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i ddeddfu drwy Fesur arfaethedig cyn gynted ag y câi gwaith ei gwblhau ar baratoi ei strategaethau newydd yn ymwneud â thai, er mwyn cael effaith real a chadarnhaol ar fynd i'r afael â materion tai fforddiadwy ar draws cymunedau yng Nghymru. Yn ein barn ni, byddai'r dull hwn yn golygu na fyddai angen gofyn am ragor o gymhwysedd deddfwriaethol oddi wrth Senedd y DU, sef angen a allai gyfyngu ar allu Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu'n gyflym, yn arbennig os ceir unrhyw oedi wrth ddatblygu ei strategaethau sy'n ymwneud â thai.

93. Gan hynny, yr ymagwedd sydd orau gan y Pwyllgor yw argymell diwygio'r Gorchymyn arfaethedig er mwyn iddo gyfeirio at 'tai fforddiadwy' yn gyffredinol neu at derm priodol arall, er bod un Aelod o'r farn y dylai ymagwedd o'r fath wahardd y Cynulliad Cenedlaethol yn benodol rhag cael cymhwysedd deddfwriaethol o ran atal neu ddileu'r hawl i brynu neu'r hawl i gael meddiant.

94. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym yn cydnabod ac yn cytuno â'r tystion sydd wedi awgrymu y gallai meysydd polisi eraill, yn benodol mewn perthynas â chynllunio, gael effaith ar fynd i'r afael â materion tai fforddiadwy. Rydym yn cydnabod bod y gyfraith ar gynllunio yn gymhleth ac, o ganlyniad i hynny, ei bod yn bosibl nad yw'n briodol nac yn bosibl darparu cymhwysedd deddfwriaethol ym Maes 18 (Cynllunio Gwlad a Thref) sydd wedi'i gyfyngu yn y bôn i'r 'agweddau cynllunio ar dai fforddiadwy'. Fel rhan o'i gwaith ar baratoi ei strategaethau tai newydd, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut y gallai'r system gynllunio gael ei defnyddio i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac felly pa gymhwysedd deddfwriaethol ym Maes 18 (Cynllunio Gwlad a Thref) a fyddai'n fanteisiol i'w helpu i gyrraedd y nod hwnnw.

95. Rydym yn nodi bod rhai sefydliadau wedi awgrymu gohirio'r Gorchymyn arfaethedig i ganiatáu i ddatblygiadau'r strategaethau sy'n ymwneud â thai gael eu cymryd i ystyriaeth. Y dull gorau gennyn ni fyddai goresgyn, i ryw raddau, yr angen am unrhyw ohirio o'r fath er mwyn cyrraedd y nod hwnnw.

96. I osgoi amheuaeth, rydym yn argymhell na ddylai'r Gorchymyn arfaethedig gael ei ohirio, ni waeth pa ymagwedd a gaiff ei dewis gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth gyflwyno Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft perthynol i'w gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

5. *Y Mesur Tai ac Adfywio*

Y Cefndir

97. Mae'r *Mesur Tai ac Adfywio* yn symud drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Nod y mesur yw:

Establish the Homes and Communities Agency and make provision about it; to abolish the Urban Regeneration Agency and the Commission for the New Towns and make provision in connection with their abolition; to regulate social housing; to enable the abolition of the Housing Corporation; to make provision about sustainability certificates, landlord and tenant matters, building regulations and mobile homes; to make further provision about housing; and for connected purposes.¹⁰³

98. Yn ystod ei waith, ceisiodd y Pwyllgor sicrhau gwybodaeth, yn benodol, oddi wrth y Dirprwy Weinidog ynghylch pam na cheisiodd Llywodraeth y Cynulliad sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol drwy gyfrwng y Mesur hwn.

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

99. O'i holi am y posibilrwydd y gallai'r Mesur fod wedi cynnwys pwerau fframwaith er mwyn rhoi sylw i faterion tai fforddiadwy yng Nghymru, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"We had some discussions during the drafting of the Bill, but the Bill was not broad enough to give us these powers. There are clauses in the Housing and Regeneration Bill that relate to the right to buy... but when the Bill was finalised, it was just not broad enough to give us these particular powers. If we could have done it that way, we certainly would have, because that would have saved a huge amount of resources and time in the Assembly. If we can gain competences via a Bill that is already going through Parliament, that is certainly the preferred route."¹⁰⁴

100. Mewn tystiolaeth ddilynol, ailadroddodd y Dirprwy Weinidog:

"...the scope of the Bill was not wide enough... Measure-making powers for the Assembly cannot be wider than the scope of the Bill. That is not possible. We tried. If it had been wide enough, we certainly would have taken that route."¹⁰⁵

¹⁰³ Teitl Hir y *Mesur Tai ac Adfywio*, Mesur 8, 2007-08

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff [49], 22 Ionawr 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff [201], 26 Chwefror 2008, Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy

Ein barn ni

101. Rydym yn nodi sylwadau'r Dirprwy Weinidog yn esbonio pam mae cymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei geisio drwy gyfrwng Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn hytrach na thrwy ddarpariaethau yn y *Mesur Tai ac Adfywio* sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Er hynny, wedi ystyried teitl hir y Mesur, rydym wedi'n siomi na chytunwyd ar bwerau fframwaith i fynd i'r afael â materion tai fforddiadwy yng Nghymru drwy'r *Mesur Tai ac Adfywio*.



Atodiadau

Nid yw hwn ar gael yn y Gymraeg

Draft Order laid before the National Assembly for Wales and Parliament under section 95(5) of the Government of Wales Act 2006, for approval by resolution of the Assembly and of each House of Parliament.

DRAFT STATUTORY INSTRUMENTS

2008 No.

**CONSTITUTIONAL LAW,
DEVOLUTION, WALES**

**The National Assembly for Wales (Legislative Competence)
(No. 5) Order 2008**

Made - - - - - ***

Coming into force in accordance with Article 1

At the Court at Buckingham Palace, the *** day *** of *** 2008

Present

The Queen's Most Excellent Majesty in Council

In accordance with section 95(5) of the Government of Wales Act 2006(a), a draft of this Order has been laid before, and approved by resolution of, the National Assembly for Wales and each House of Parliament.

Accordingly, Her Majesty, in pursuance of section 95(1) of the Government of Wales Act 2006, is pleased, by and with the advice of Her Privy Council, to order as follows:-

Citation and commencement

1. This Order may be cited as the National Assembly for Wales (Legislative Competence)(No.5) Order 2008 and it comes into force on the day after the day on which it is made.

(a) 2006 (c.32).

Amendments to Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006

2.—(1) Part 1 of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006 is amended in accordance with this article.

(2) In field 11 (housing), insert—

“Matter 11.1

Disposal by a social landlord of the following—

- (a) a dwelling-house within the meaning of Part 5 of the Housing Act 1985;
- (b) a dwelling within the meaning of section 63 of the Housing Act 1996.

Interpretation of this field

In this field “social landlord” means any of the following—

- (a) a county or county borough council;
- (b) a development corporation established by an order made, or having effect as if made, under the New Towns Act 1981;
- (c) the Commission for the New Towns which continues in being by virtue of section 35 of the New Towns Act 1981;
- (d) a housing action trust established under section 62 of the Housing Act 1988;
- (e) a housing association within the meaning of section 5 of the Housing Act 1985;
- (f) a housing trust within the meaning of section 6 of the Housing Act 1985;
- (g) a housing co-operative within the meaning of section 27B of the Housing Act 1985;
- (h) an urban development corporation established section 135 of the Local Government, Planning and Land Act 1980;
- (i) the relevant authority within the meaning of section 6A of the Housing Act 1985;
- (j) the relevant authority within the meaning of section 56 of the Housing Act 1996.”

Clerk to the Privy Council

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order amends Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006 (“the 2006 Act”). The effect of the Order is to extend the legislative competence of the National Assembly of Wales to make new laws for Wales by Measure under section 93 of the 2006 Act.

Article 2(2) of the Order amends field 11 (housing) in Part 1 of Schedule 5 by inserting a new matter 11.1, which extends the legislative competence of the National Assembly for Wales to cover the disposal by a social landlord of dwellings.

This extended legislative competence of the National Assembly for Wales is subject to the general limitations that apply to the exercise of such competence by virtue of Part 3 of the 2006 Act.

MEMORANDWM ODDI WRTH Y GWEINIDOG DROS DAI
Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008

Cynnig ar gyfer Tai Fforddiadwy - Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol

Rhagarweiniad

1. Mae'r Memorandwm hwn wedi'i baratoi a'i osod gerbron yn unol â Rheol Sefydlog (RhS) 22.14. Mae'n gosod y cefndir i'r darpariaethau yn y cynnig amgaeedig gan y llywodraeth am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) a fyddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"). Mae'r GCD wedi'i osod yn unol â RhS 22.13 ac mae'r Memorandwm hwn yn esbonio cwmpas y pwerau a geisir drwy'r GCD.
2. Ceir cyd-destun cyfansoddiadol y cais hwn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") a pholisi Llywodraeth y DU. Yn ei Phapur Gwyn "Trefn Lywodraethu Well i Gymru", a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2005, nododd Llywodraeth y DU ei hymrwymiad i wella pwerau deddfwriaethol y Cynulliad fel sefydliad a etholwyd yn ddemocrataidd gyda'i weithdrefnau craffu manwl ei hun.
3. Mae adran 95 o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i roi cymhwysedd i'r Cynulliad i ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar Faterion penodedig. Caniateir i'r materion hyn gael eu hychwanegu at y Meysydd o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud drwy Ddeddf Seneddol (ac felly gallant addasu deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes a gwneud darpariaeth newydd), o ran materion, yn ddarostyngedig i'r terfynau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 3 o Ddeddf 2006. Cyfeirir at Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 95 o Ddeddf 2006 fel Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) yn y Memorandwm hwn.
4. Caniateir i faterion gael eu mewnosod yn y meysydd a gynhwysir yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006, naill ai drwy Ddeddf Seneddol neu Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, a gymeradwywyd gan y Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd. Mae'r ail lwybr yn galluogi'r Cynulliad i gychwyn y broses ar gyfer rhoi cymhwysedd o'r fath, drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

5. Byddai'r GCD a gynigir yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i'r Cynulliad, ym maes Tai (Maes 11 o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006). Yn gysylltiedig wrth Atodiad A y mae copi o Atodlen 5 sy'n dangos y cymhwysedd deddfwriaethol y mae'r Cynulliad wedi'i gaffael hyd yn hyn a thrwy ba mecanwaith y cafodd ei roi.

Y cefndir

6. Bydd pwerau deddfwriaethol newydd ynghylch y "materion" penodedig yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a Phwyllgorau'r Cynulliad i ddwyn cynigion gerbron ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau, a seilir ar flaenoriaethau ac amserlenni yng Nghymru. Bydd y Mesurau hyn yn destun craffu trylwyr a chymeradwyaeth gan y Cynulliad.
7. Mae tai yn faes pwnc sydd wedi'i ddatganoli ers blynyddoedd lawer ac mae gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau eang eu hystod o dan Ddeddf Tai 1985 (fel y'i diwygiwyd).
8. Yn Strategaeth Dai Genedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ceir gweledigaeth bod eisiau "i bawb yng Nghymru gael cyfle i fyw mewn tai fforddiadwy sydd o ansawdd da; a gallu dewis lle maent yn byw a phenderfynu ai prynu neu rentu ydy'r opsiwn gorau iddynt hwy a'u teuluoedd". Mae'r Strategaeth yn ceisio canolbwyntio ar ansawdd, dewis a hyrwyddo perchenogaeth gynaliadwy ar gartref.
9. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi defnyddio ei phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i feithrin dull neilltuol o weithredu sydd wedi'i deilwra i amgylchiadau penodol Cymru sy'n wahanol mewn ffyrdd sylweddol i rai Lloegr. Cymeradwyodd y Cynulliad blaenorol nifer o Offerynnau Statudol ynghylch cynlluniau Perchenogaeth Cartref Cost Isel (megis yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael) er mwyn:
 - a. lleihau uchafswm y disgownt o £24,000 i £16,000,
 - b. estyn nifer yr ardaloedd gwledig lle caniateir i gyfyngiadau gael eu rhoi ar ailwerthu, ac
 - c. caniatáu i landlordiaid gael "hawl cynnig cyntaf" i ailbrynu unrhyw eiddo y cynigir ei ailwerthu o fewn 10 mlynedd i'r dyddiad y cafodd ei brynu gyntaf o dan y cynllun Hawl i Brynu neu'r cynllun Hawl i Gaffael.
10. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd camau hefyd mewn nifer o feysydd eraill ynghylch tai fforddiadwy. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - a. Canllawiau Cynllunio diwygiedig ar Dai Fforddiadwy a Chydastudiaethau ynghylch Argaeledd Tir ar gyfer Tai
 - b. Arweiniad i Asesu'r Farchnad Dai leol
 - c. Pecyn Cymorth Tai Fforddiadwy (sy'n nodi ystod lawn y pwerau a'r dulliau sydd ar gael i awdurdodau lleol a'u partneriaid i uchafu'r ddarpariaeth o ran tai fforddiadwy)

- ch. cynyddu'r rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol â 72% dros 4 blynedd, a
- d. protocol i'w gwneud yn fwy hwylus i waredu tir dros ben, sydd ym mherchenogaeth y Cynulliad, ar gyfer tai fforddiadwy.
11. Gwneir y cynnig am y pwerau hyn hefyd yng nghyd-destun y terfynau i'r setliad cyfredol sy'n cyfyngu Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn rhaiu ffyrdd rhag mynd i'r afael â blaenoriaethau a phynciau yng Nghymru. Mewn nifer o feysydd mae pwerau presennol Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol wedi'u cyfyngu. Y prif gyfyngiad ar y trefniadau cyfredol yw'r ffaith nad oes gan y Cynulliad unrhyw bŵer statudol pendant i amrywio darpariaethau'r cynllun Hawl i Brynu a'r cynllun Hawl i Gaffael ynghylch cymhwyster er mwyn diwallu anghenion tai pobl a chymunedau yng Nghymru.
12. Gellir ystyried bod 70% o Gymru yn wledig ei natur. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd nifer o gamau i gynorthwyo'r broses o ddatblygu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig gan gynnwys cymorth i Swyddogion Galluogi ym Maes Tai yng Nghefn Gwlad ac Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol. Er hynny, mewn rhai cymunedau, ychydig iawn o eiddo sydd ar ôl yn y stoc tai cymdeithasol. Mae bron 60% o'r eiddo ym Mhowys a Cheredigion wedi'i werthu o dan yr Hawl i Brynu neu'r Hawl i Gaffael.
13. Ers cyflwyno'r Hawl i Brynu (ym 1980) a'r Hawl i Gaffael (ym 1997) mae dros 140,000 o anheddau wedi'u prynu gan denantiaid yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i bron hanner y stoc tai cymdeithasol gwreiddiol (heb gynnwys unrhyw anheddau newydd). Er mai newid deiliadaeth o denant i berchen-feddiannydd yw effaith uniongyrchol tenant sy'n arfer yr hawliau hyn, mae anheddau a fyddai fel arall wedi dod ar gael i'w hailosod at ddibenion tai cymdeithasol wedi'u gwerthu ar y farchnad agored. Mae hyn wedi lleihau'n sylweddol y nifer o dai cymdeithasol sydd ar gael i'w rhentu gan bobl y mae arnynt angen tai. Mae hon yn broblem benodol mewn ardaloedd lle mae pwysau am dai. Yr oedd 1,206 o hawliadau Hawl i Brynu yn ystod y chwarter o Ionawr i Fawrth 2007, sef cynnydd o 126 ar yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
14. Yn y chwarter o Ionawr i Fawrth 2007, yr oedd 1,666 o aelwydydd yn ddigartref a'u hangen yn fater o flaenoriaeth, tra'r oedd 3,152 o aelwydydd mewn llety dros dro (gan gynnwys sefydliadau gwely a brecwast). Er gwaethaf y camau a amlinellwyd uchod, mae lefel y digartrefedd yn parhau i fod yn sylweddol er bod maint y stoc tai cymdeithasol yn parhau i ostwng.
15. Er mwyn cymryd camau pellach ynghylch tai fforddiadwy, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n credu bod angen pwerau ychwanegol i'w galluogi i ddeddfu drwy gyfrwng Mesur Cynulliad o dan bwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddff Llywodraeth Cymru 2006.

16. Mae *Cymru'n Un*, rhaglen lywodraethu Llywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys ymrwymiad i geisio cael pŵer deddfwriaethol i'r Cynulliad er mwyn atal dros dro'r Hawl i Brynu mewn ardaloedd lle mae pwysau am dai.
17. Mae hyn yn ganlyniad i ymrwymadau yn y maniffestos a gyflwynwyd gan y ddau barti yn etholiadau Cynulliad 2007. Yr oedd maniffesto Llafur yn cynnwys ymrwymiad i geisio pwerau deddfwriaethol newydd er mwyn gallu cadw'r gronfa dai a oedd ar gael i'w rhentu mewn ardaloedd lle'r oedd angen mawr am dai, fel un mesur i wella'r nifer o dai fforddiadwy a oedd ar gael. Yr oedd maniffesto Plaid Cymru yn cynnwys ymrwymiad i ddiddymu'r "Hawl i Brynu" mewn ardaloedd â phroblemau tai lle mae prinder lletyau i'w rhentu.
18. Byddai'r GCD a gynigir yn rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bŵer i basio Mesurau Cynulliad ynghylch gwaredu anheddau a thai annedd gan landlordiaid cymdeithasol. Byddai hyn yn galluogi'r Cynulliad i lunio atebion Cymreig i fynd i'r afael â blaenoriaethau Cymru.

Cwmpas

19. Cynigir bod Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei diwygio i ychwanegu Mater o dan Faes 11: tai.
Mater 11.1 (Byddai gwaredu'r canlynol gan landlord cymdeithasol –
 - (a) tŷ annedd o fewn ystyr "dwelling-house" yn Rhan 5 o Ddeddf Tai 1985;
 - (b) annedd o fewn ystyr "dwelling" yn adran 63 o Ddeddf Tai 1996)yn galluogi'r Cynulliad i gyflwyno Mesur o dan Ran 3 o Ddeddf 2006 a fyddai'n ymwneud â gwaredu tir ar gyfer tai gan landlord cymdeithasol (gan gynnwys atal dros dro yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael mewn ardaloedd lle mae pwysau am dai).
20. Cynigir cwmpasu'r darpariaethau statudol canlynol –
Rhan V o Ddeddf Tai 1985 ac adrannau 16-17 o Ddeddf Tai 1996. Bydd gwaredu tai annedd ac anheddau o dan Ran II o Ddeddf Tai 1985 a Phennod II o Ran I o Ddeddf Tai 1996 o fewn y cymhwysedd ond nid unrhyw fath arall o dir. O dan yr amgylchiadau presennol, lle gall fod prinder tai cymdeithasol mewn rhai lleoedd, byddai'r mater yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu er mwyn caniatáu i'r Hawl i Brynu neu'r Hawl i Gaffael gael ei hatal dros dro mewn ardaloedd penodol ac am gyfnodau penodol ac i ddiffinio o dan ba amgylchiadau neu amodau y câi ataliad dros dro o'r fath ei ystyried neu ei ganiatáu.
21. Gan hynny, prif fwriad yr GCD hwn yw rhoi'r pŵer i'r Cynulliad wneud Mesurau o dan Ran 3 o Ddeddf 2006 a fyddai'n rhoi eu heffaith i ba benderfyniadau bynnag ar bolisi y bydd Gweinidogion Cymru yn bwrw

ymlaen â hwy maes o law i wella'r nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael yng Nghymru. Mae cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy i'w rhentu ac i'w prynu yn faes sydd â blaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Terfynau daeryddol unrhyw Fesur Cynulliad

22. Mae Adran 94 o Ddeddf 2006 yn gwahardd unrhyw Fesur Cynulliad rhag cael effaith ac eithrio o ran Cymru. Mae'n darparu na fydd darpariaeth mewn Mesur Cynulliad yn gyfraith i'r graddau y mae y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae darpariaeth y tu allan i gymhwysedd os bydd yn gymwys ac eithrio o ran Cymru, neu os bydd yn rhoi, gosod, addasu neu dynnu swyddogaethau y gellir eu harfer ac eithrio o ran Cymru (neu'n rhoi pŵer i wneud hynny). Mae eithriadau cyfyngedig ar gyfer mathau penodol o ddarpariaethau atodol, er enghraifft, darpariaeth sy'n briodol i wneud darpariaethau'r Mesur yn effeithiol, darpariaeth sy'n galluogi darpariaethau'r Mesur i gael eu gorfodi a darpariaeth sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i deddfwriaeth arall.
23. Mae'r cyfyngiad ynghylch swyddogaethau ac eithrio o ran Cymru yn golygu na fyddai'r Cynulliad yn gallu rhoi swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â Chymru i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru nac unrhyw awdurdod cyhoeddus arall.

Swyddogaethau Gweinidog y Goron

24. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig hwn ynndo'i hun yn ceisio addasu na thynnu oddi ar unrhyw un o Weinidogion y Goron unrhyw swyddogaethau sydd ganddo. Yn rhinwedd Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaiff y Cynulliad drwy Fesur newid swyddogaethau Gweinidogion y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. O ran unrhyw gynigion yn y dyfodol a all effeithio ar swyddogaethau Gweinidog y Goron, ymgynghorir ag Adrannau priodol Llywodraeth y DU a cheisir dod i gytundeb am unrhyw gynigion yn y dyfodol i newid neu addasu'r swyddogaethau hynny.

Y Casgliad

25. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig y dylid estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â darpariaethau'r GCD a gynigir gan y llywodraeth ac y mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud ag ef.

Jocelyn Davies
Y Dirprwy Weinidog dros Dai

SCHEDULE 5
ASSEMBLY MEASURES

Part 1

Matters

Field 1: agriculture, fisheries, forestry and rural development

Field 2: ancient monuments and historic buildings

Field 3: culture

Field 4: economic development

Field 5: education and training

Matter 5.1

Provision about the categories of school that may be maintained by local education authorities.

Matter 5.2

Provision about the establishment and discontinuance of schools maintained by local education authorities, their change from one category to another and their alteration in other respects.

Matter 5.3

Provision about the admission of pupils to schools maintained by local education authorities.

Matter 5.4

Provision about the curriculum in schools maintained by local education authorities.

Matter 5.5

Provision about school attendance, the behaviour of pupils at school, school discipline and the exclusion of pupils from school (including the duties of parents in connection with those matters).

Matter 5.6

Provision about the making of arrangements for the provision of education for persons of compulsory school age who have been excluded from schools or who for any other reason would not otherwise receive suitable education.

Matter 5.7

Provision about entitlement to primary, secondary and further education and to training.

Matter 5.8

